**Cofrestru ar gyfer CBAC TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant Gradd Unigol CBAC (Cod Cyfnewid 3570CS, C00/3685/2) a Dwyradd (3570CD, C00/1237/9)**

Fel yr amlinellir yn y fanyleb CBAC TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, gall ymgeiswyr sefyll Uned 1 ac Uned 2:

- a chyfnewid am y cymhwyster gradd unigol
- cyn dilyn Uned 3 ac Uned 4 a chyfnewid am ddwyradd ar ddiwedd y cwrs
- yn yr un gyfres ag Uned 3 ac Uned 4 a chyfnewid am gymhwyster dwyradd.

**Lle mae ymgeiswyr wedi cyfnewid Uned 1 ac Uned 2 am y gradd unigol, ni all deilliannau Uned 1 nac Uned 2 gyfrannu at ddwyradd.**

Mae'n bwysig nodi bod ymgeiswyr **yn cael** cyfnewid dwyradd a gradd unigol yn yr un gyfres **os ydynt wedi cwblhau digon o unedau i ganiatáu'r ddau gyfnewid ar gyfer yr un gyfres.** Er enghraifft, efallai eu bod wedi sefyll Uned 1 ac Uned 2 ym mlwyddyn 10 ac yna mynd ymlaen i sefyll Uned 1 ac Uned 2 eto, ynghyd ag Uned 3 ac Uned 4 ym mlwyddyn 11.

Ar gyfer ymgeiswyr sy'n 'cyfnewid' cymhwyster gradd unigol a dwyradd **yn yr un gyfres, er mwyn bodloni gofynion terfynol,** bydd CBAC yn prosesu'r **cyfnewid cymhwyster gradd unigol yn gyntaf.** Gall hyn felly gael effaith andwyol ar radd gyffredinol y dwyradd.

Noder **na fydd** gan ganolfannau **hawl** i gael gwared ar unrhyw gyfnewid **unwaith y bydd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi**. Os yw canolfan yn dymuno dileu cyfnewid unrhyw ymgeisydd, rhaid cyflwyno ffeil ddiwygio **yn y ffordd arferol cyn 1 Awst** ym mlwyddyn y cyfnewid.